Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Crynodeb Gwirio Ansawdd

## Enw'r gwasanaeth: Practis Deintyddol Eirlys

## Dyddiad y gweithgarwch: 12 Gorffennaf 2022

Dyddiad cyhoeddi: 30 Awst 2022





Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: agic@llyw.cymru

Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol: 978-1-80364-770-8

© Hawlfraint y Goron 2020

# Crynodeb Gwirio Ansawdd

## Ein dull gweithredu

Ymgymerodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) â gwiriad ansawdd o bell o Bractis Deintyddol Eirlys fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae'r practis deintyddol hwn wedi'i leoli yng Ngwynedd, Gogledd Cymru, ac yn cynnig gofal deintyddol GIG a phreifat.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull newydd wedi'i deilwra ar gyfer gwaith sicrwydd ac maent yn un o nifer o ffyrdd y mae'n archwilio sut mae gwasanaethau gofal iechyd yn bodloni Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 ar gyfer deintyddion a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cynorthwyo dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Mae gwiriadau ansawdd yn giplun o'r safonau gofal o fewn gwasanaethau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle'n gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol: atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn arbennig ynghylch staffio), a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn archwilio trefniadau sydd ar waith i ddiogelu staff a chleifion rhag COVID-19, gan ein galluogi i ddarparu cyngor gwella cyflym a chefnogol i sicrhau gweithrediad diogel gwasanaethau yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein trefniadau sicrwydd a'n dull arolygu yma.

Gwnaethom siarad â rheolwr y practis a'r unigolyn cyfrifol ar 12 Gorffennaf 2022, a roddodd wybodaeth a thystiolaeth i ni am eu gwasanaeth. Gwnaethom ddefnyddio'r prif lwybrau ymholi canlynol:

Practisau deintyddol

- Pa newidiadau ydych chi wedi'u gweithredu yng ngoleuni COVID-19 i sicrhau y cynhelir safonau atal a rheoli heintiau?
- Sut ydych chi'n sicrhau y gall yr holl gleifion (gan gynnwys grwpiau sy'n agored i niwed / mewn perygl) gyrchu gwasanaethau mewn modd priodol a diogel?
- Sut ydych chi'n diwallu anghenion cleifion Cymraeg wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd trwy gyfrwng y Gymraeg?
- Sut mae'r practis a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu wedi addasu yn ystod y cyfnod hwn o COVID-19?
- Sut ydych chi'n sicrhau bod cydraddoldeb a dull sy'n seiliedig ar hawliau'n cael eu hymgorffori ar draws y gwasanaeth?

## Yr amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19 a sut mae'r gwasanaeth wedi cynllunio a rheoli'r amgylchedd gofal i sicrhau ei fod mor ddiogel â phosibl i gleifion, staff ac ymwelwyr.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys:

- Asesiad risg iechyd yr amgylchedd a diogelwch

Gwnaethom hefyd holi cynrychiolwyr y gwasanaeth am y newidiadau y maent wedi'u gwneud i sicrhau bod y cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth yn unol â'u hanghenion.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Gwnaethom adolygu'r asesiad risg amgylcheddol a chadarnhau ei fod wedi'i gwblhau'n ddigonol a'i ddyddio.

Dywedodd rheolwr y practis wrthym am y newidiadau a wnaed i'r practis er mwyn lleihau'r risg o drosglwyddo COVID-19 yn y mannau cymunol a'r ystafelloedd triniaeth. Mae arwyddion cadw pellter cymdeithasol a sticeri llawr yn parhau i gael eu harddangos mewn mannau cymunol. Mae'n ofynnol i gleifion wisgo masgiau i'w hapwyntiadau o hyd ac anogir y defnydd o orsafoedd hylif diheintio dwylo o hyd. Mae sgriniau amddiffynnol hefyd yn parhau i fod yn eu lle o amgylch desg y dderbynfa a defnyddir tywelion papur yn nhoiled y cleifion yn hytrach na'r sychwr dwylo electronig.

Fe'n hysbyswyd bod seddi yn y man aros wedi'u tapio i atal defnydd ohonynt er mwyn cynnal pellter cymdeithasol a bod toiledau'r cwsmeriaid yn cael eu glanhau wedi iddynt gael eu defnyddio. Mae ffenestri yn yr ystafelloedd triniaeth wedi'u newid fel y gallant aros ar agor yn ystod apwyntiadau ac mae biniau gwastraff clinigol wedi'u gosod y tu allan i bob ystafell driniaeth fel y gall staff gael gwared ar eu cyfarpar diogelu personol yn gywir.

Dywedodd staff wrthym fod gwybodaeth yn ymwneud â COVID-19 yn cael ei rhannu â chleifion trwy wefan y practis ac ar ei dudalennau cyfryngau cymdeithasol. Caiff gwybodaeth berthnasol a holiaduron sgrinio COVID-19 eu hanfon at gleifion cyn eu hapwyntiad hefyd trwy neges destun ac ar e-bost. Caiff holiaduron sydd wedi'u cwblhau eu storio wedyn yn ffeiliau'r cleifion.

Cawsom wybod bod dau dderbynnydd a thair nyrs ddeintyddol yn rhugl yn y Gymraeg, a bod yr holl wybodaeth i gleifion ar gael yn ddwyieithog. Dywedodd rheolwr y practis wrthym hefyd fod rhai aelodau o staff yn gallu siarad Arabeg a Rwmaneg yn ogystal a bod gan y lleoliad fynediad at wasanaeth cyfieithu, pe bai ei angen. Er ei bod yn amlwg bod y practis yn gweithio i ddarparu gwasanaeth dwyieithog i gleifion, fe wnaethom argymell bod y staff sy'n siarad Cymraeg yn gwisgo bathodynnau i ddangos hyn.

Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod gan y lleoliad ystafelloedd ar wahân ar gyfer gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosol[1] a gweithdrefnau nad ydynt yn cynhyrchu aerosol. Dywedodd wrthym, yn ystod gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosol, fod yr ystafelloedd triniaeth llai, nad ydynt yn cael eu defnyddio ar gyfer yr apwyntiadau hyn, yn cael eu defnyddio ar gyfer gwisgo a diosg[2] cyfarpar diogelu personol.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

## Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19, a pha mor llwyddiannus mae'n rheoli'r risg o heintiau er mwyn helpu i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Copi o archwiliad dihalogi Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05
- Amserlenni glanhau'r ddeintyddfa
- Polisi glanhau
- Gwiriadau dyddiol o'r awtoclaf
- Copi o gofnodion uwchsonig

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Mae amserlenni a chofnodion glanhau'r practis ar gyfer dihalogi offerynnau ac offer y ddeintyddfa, ynghyd â chopïau o gofnodion uwchsonig a gwiriadau dyddiol o'r awtoclaf a ddarparwyd, yn drwyadl ac wedi'u cwblhau.

Dywedodd rheolwr y practis wrthym am y systemau sydd ar waith i sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau dros atal a rheoli heintiau. Arddangosir posteri gwisgo a diosg y gellir eu sychu ar gyfer y staff, ac maent yn derbyn hyfforddiant allanol mewn atal a rheoli heintiau hefyd.

Cawsom wybod, pe bai angen apwyntiad ar glaf sydd wedi cael canlyniad COVID-19 positif, y byddai'n cael ei weld ar ddiwedd y dydd, ac y byddai staff yn gwisgo cyfarpar diogelu personol

[1] Mae gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosol yn weithdrefn feddygol a all arwain at ryddhau gronynnau yn yr aer (aerosolau) o'r system anadlu wrth drin rhywun yr amheuir ei fod, neu ei bod yn hysbys ei fod, yn dioddef o gyfrwng heintus a drosglwyddir yn gyfan gwbl neu'n rhannol trwy'r aer neu drwy ddefnynnau.
[2] Gwisgo - gwisgo cyfarpar diogelu personol; diosg - tynnu cyfarpar diogelu personol.

llawn. Byddai gwaith glanhau ychwanegol yn cael ei wneud yn y practis unwaith y byddai'r claf wedi gadael.

Dywedodd rheolwr y practis wrthym ei bod yn anoddach cael gafael ar gyfarpar diogelu personol ar y dechrau, ond nid oeddent erioed wedi mynd yn brin ohonynt. Cawsom wybod bod y bwrdd iechyd yn barod iawn i helpu i sicrhau bod gan y practis y cyfarpar pan oedd ei angen arno. Cawsom wybod mai nyrs ddeintyddol arweiniol y practis sy'n gyfrifol am wiriadau stoc wythnosol o gyfarpar diogelu personol. Mae'n adrodd i reolwr y practis pan fydd angen archebu stoc.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

## Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, gwnaeth AGIC holi cynrychiolwyr y gwasanaeth ynglŷn â'r ffordd y maent wedi addasu eu gwasanaeth mewn ymateb i effaith COVID-19. Gwnaethom ystyried p'un a yw'r trefniadau rheoli yn sicrhau bod staff yn addas yn eu rolau ac wedi'u hyfforddi'n briodol er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys:

- Adroddiad Rheoliad 16
- Polisi cydsyniad
- Cynllun parhad busnes
- Cofnodion hyfforddiant gorfodol ar gyfer pob aelod o staff
- Archwiliad cardiau cofnodi
- Archwiliad Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol)
- Copi o'r datganiad o ddiben diweddaraf
- Copi o'r daflen wybodaeth ddiweddaraf i gleifion

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Gwnaethom adolygu'r cofnodion hyfforddiant gorfodol ar gyfer pob aelod o staff. Roedd yr holl hyfforddiant gorfodol wedi'i gwblhau ac yn gyfredol.

Fe'n hysbyswyd bod unrhyw ganllawiau a ddiwedderir ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn cael eu cyflwyno i'r staff trwy e-bost, ac, yn dilyn hynny, y bydd y rheolwr cofrestredig yn darparu esboniad penodol o unrhyw newidiadau.

Eglurwyd y broses o wirio offer a meddyginiaethau a ddefnyddir mewn achos brys. Mae'r derbynnydd yn gwirio'r canister ocsigen yn ddyddiol. Cawsom wybod hefyd bod y derbynnydd yn gwirio'r cyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys a'r diffribiliwr yn wythnosol.

Gwnaethom adolygu'r datganiad o ddiben[3] a'r daflen wybodaeth i gleifion,[4] a oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

[3] Ystyr "datganiad o ddiben" ("statement of purpose") yw'r datganiad sy'n cael ei lunio yn unol â Rheoliad 5(1) Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 a'r atodlen.
[4] Gwybodaeth sy'n ofynnol gan Atodlen 2 o'r rheoliadau uchod.